# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 8.11.17

**Yn Bresennol:** **Y Cynghorydd Paul J. Rowlinson (Cadeirydd)**
**Y Cynghorydd Elin Walker Jones (Is-gadeirydd)**

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr Menna Baines, R. Medwyn Hughes, Dewi Wyn Roberts, Mike Stevens

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Dr Gwyn Lewis (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Elizabeth Roberts (Undeb Bedyddwyr Cymru), Eirian Bradley Roberts (Yr Eglwys Gatholig), Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru).

**Athrawon:** Miriam Amlyn, Cathryn Davey

**Swyddogion:** Mai Bere (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**GwE:** Bethan James (Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant)

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Judith Humphreys, Cynrig Hughes (Yr Annibynwyr), Alwen Watkin, Heledd Jones (Undebau Athrawon)

**Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Anest Gray Frazer, cynrychiolydd Yr Eglwys yng Nghymru, i'w chyfarfod cyntaf o CYSAG.**

## 1. GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Dr Gwyn Lewis.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd Y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts fuddiant personol yn Eitem 8 – Hunan Arfarnu Ysgolion gan ei fod yn gwasanaethu ar Gorff Llywodraethu Ysgol Abersoch. Roedd o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

## 3. MATERION BRYS

**(Nid oedd y materion canlynol wedi eu cynnwys ar y rhaglen ond cytunodd y Cadeirydd i'w hystyried dan Adan 100 (4)(b), Deddf Llywodraeth Leol 1972).**

**(a)** Eglurodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn holiadur gan ESTYN i'w gwblhau erbyn 27 Hydref 2017 ond ei fod wedi gofyn am estyniad fel bo modd derbyn barn aelodau CYSAG ar yr ymatebion cyn ei anfon ymlaen yn ddi-oed i ESTYN.

Cyflwynwyd copi o'r holiadur i'r Aelodau ac fe gytunwyd ar y diwygiadau canlynol:

(i) Ychwanegu'r brawddegau isod i'r blychau yn y mannau perthnasol (ac fe waned hyn gan Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE tra yn y cyfarfod):

"Hawl gan bob cynghorydd i fod yn aelod o Gorff Llywodraethu, ac felly mewn sefyllfa i drafod addysg grefyddol gydag athrawon a disgyblion eu hysgolion.

Mae tystiolaeth storïol yn awgrymu bod yr arlwy ar gyfer disgyblion cynradd yn fwy cyfyng
erbyn hyn, *e.e. adalw stori Feiblaidd*, yn hytrach na'u bod yn astudio effaith dysgeidiaethau crefyddol ar fywydau credinwyr neu'n ymgymryd â 'phrosiect' neu ymholiad sy'n seiliedig ar gwestiwn mawr neu sylfaenol.

Sicrhau amser digonol i'r pwnc yn her i'r ysgolion cynradd.

Prin yw'r cyfleoedd i adrannau AG i gydweithio gydag adrannau eraill ar faterion sy'n gorgyffwrdd".

(ii) Diddymu'r frawddeg a oedd yn cyfeirio at absenoldeb staff gan nad oedd yn berthnasol.

**Penderfynwyd: Cymeradwyo'r holiadur a gofyn i'r Swyddog Addysg Ardal Cynorthwyol anfon yr holiadur i ESTYN.**

**(b)** Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn cais gan Ddyneiddiwr i wasanaethu ar CYSAG Gwynedd fel aelod gyda phleidlais. Yn y cyfamser roedd y Cadeirydd wedi cyfeirio'r cais i Swyddog Monitro'r Cyngor er mwyn sicrhau y byddir yn cydymffurfio â chyfansoddiad CYSAG.

Adroddodd Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE bod canllawiau i'w dilyn ar gyfer ffurfio CYSAG ac ym Mhwyllgor Addysg ym 1996 cytunwyd i sefydlu grwpiau fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Grŵp A | - | Cristnogion a Chrefyddau Eraill |
| Grŵp B | - | Athrawon |
| Grŵp C | - | Yr Awdurdod Addysg |
| Grŵp CH | - | Aelodau Cyfetholedig |

Esboniwyd ymhellach bod Deddf 1993 sy'n diwygio Deddf 1944 a Deddf 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i'r AALl sicrhau bod cyfansoddiad pwyllgor A cynhadledd maes llafur cytûn a grŵp A CYSAG (enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill ac enwadau'r crefyddau hynny) gynrychioli'r gymuned leol. Mae'n ofynnol i nifer y cynrychiolwyr o bob enwad a chrefydd adlewyrchu'n fras gryfder cyfrannol yr enwad hwnnw neu'r grefydd honno yn yr ardal leol, cyn belled ag y bo hynny'n gyson â chyflawni'n effeithlon swyddogaethau'r pwyllgor neu'r grŵp. Gan hynny, mae'r darpariaethau statudol yn cydnabod y bydd achlysuron pan fydd buddiannau effeithlonrwydd yn drech na'r gofyniad i sicrhau cynrychiolaeth uniongyrchol gyfrannol.

**Penderfynwyd: Nodi'r uchod a disgwyl ymateb gan y Swyddog Monitro.**

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2017 fel rhai cywir yn ddarostyngedig i'r cywiriadau canlynol:

(a) Yn y Gymraeg:

7 (c) - "fel yn y sector cynradd…" yn lle "fel yn y sector …" yn y 3ydd paragraff
8 (b) (b) "7 Gorffennaf 2017 yn Wrecsam" yn lle "23 Mehefin 2016 yn Rhyl"

(b) Yn y Saesneg:

Yn yr ymddiheuriadau – “Presbyterian Church of Wales” yn lle “Union of Welsh Baptists”
6 (b) – Ychwanegu “Talysarn” yn y paragraff 1af
“Agreed” yn lle “Cytûn” yn yr ail baragraff
“was not fully meeting” yn lle “was fully meeting” yn y 3ydd paragraff
7 (a) “illness and confusion” yn lle “confusion and error”
8 (b) (b) “7 July 2017 in Wrexham” yn lle “23 June 2016 in Rhyl”

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG GWYNEDD 2016/17

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG Gwynedd am y flwyddyn academaidd 2016-17, er cymeradwyaeth yr aelodau, cyn cyhoeddi’r adroddiad terfynol.

Adroddwyd gan yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE, bod yr adroddiad yn grynhoad o drafodaethau CYSAG yn ystod y flwyddyn flaenorol o Fedi 2016 hyd Awst 2017, a’i fod gerbron yr aelodau , er mwyn rhoi cyfle iddynt fynegi barn ar yr adroddiad drafft.

Eglurwyd mai swyddogaeth CYSAG oedd cynghori’r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, a’r Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

Tywyswyd yr aelodau drwy’r adroddiad gan gyfeirio ar y dulliau a ddefnyddir i roi sylw cyson i fonitro safonau Addysg Grefyddol, trwy graffu hunan arfarniadau ysgolion ac fe welwyd bod ansawdd yr hunan arfarniadau wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf; adroddiadau arolygu ESTYN ynghyd â monitro canlyniadau arholiadau.

Tynnwyd sylw at gynllun gweithredu CYSAG Gwynedd a oedd yn amlinellu 4 blaenoriaeth.

Cytunwyd i’r dyfodol i ysgolion gyflwyno eu hunan arfarniadau yn y tymor yn dilyn derbyn arolygiad.

Gwnaed fân ddiwygiadau i’r adroddiad drafft tra yn y cyfarfod ac addawodd yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE y byddai’n gwirio’r ddogfen cyn cyflwyno’r adroddiad terfynol.

Diolchwyd i’r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE am baratoi’r Adroddiad Blynyddol Drafft.

**Penderfynwyd: Derbyn gyda diolch Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG ar gyfer 2016-17, a gofyn i’r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE wneud unrhyw gywiriadau a newidiadau golygyddol a gytunwyd yn y cyfarfod cyn cyhoeddi’r adroddiad terfynol.**

## 6. ADDOLI AR Y CYD

Cyflwynwyd Canllawiau Atodol gan ESTYN a Chymdeithas CYSAGau Cymru mewn perthynas ag addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol.

Derbyniwyd eglurder ar beth yn union yw addoli ar y cyd gan yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE gan nodi bod Deddf Diwygio Addysg 1988 a Chylchlythyr 10/94 Swyddfa Cymru yn pennu’r gofynion cyfreithiol ar gyfer addoli ar y cyd mewn ysgolion yng Nghymru. Gofynnir i ysgolion ddarparu addoli ar y cyd bod dydd i bob disgybl cofrestredig gan ddilyn patrwm Cristnogol yn bennaf neu’n gyfan gwbl. Gall addoli ar y cyd gael ei gynnal unrhyw bryd yn ystod diwrnod yr ysgol ac nid oes rhaid

iddo fod yn dorfol - gall gael ei ddarparu i ddosbarth neu flwyddyn ysgol. Esboniwyd bod hawl gan rieni i eithrio eu plant o addoli ar y cyd gydag ysgolion yn gorfod cytuno i geisiadau o'r fath.

Gofynnwyd i Aelodau CYSAG i ba raddau maent yn awyddus i fonitro addoli ar y cyd mewn ysgolion. Pwysleisiwyd nad oedd angen dod i farn ar ansawdd yr addoliad ond yn hytrach bod yr ymarferiad ar gyfer gwella deallusrwydd Aelodau o'r hyn a gyflwynir gan ysgolion yn yr addoliad.

Awgrymwyd gan Aelodau y byddent yn fodlon mynychu'r ysgolion hynny lle maent yn gwasanaethu ar y cyrff llywodraethu ac y byddai'n gwrtais i'r awdurdod addysg gysylltu â'r ysgolion hynny i'w hysbysu o'r bwriad ac wedyn i'r ysgolion estyn gwahoddiad i Aelodau CYSAG fynychu pan fyddent yn cynnal eu haddoliad ar y cyd.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a chymeradwyo i'r 6 aelod etholedig sy'n gwasanaethu ar CYSAG fonitro addoli ar y cyd yn yr ysgolion hynny lle maent yn llywodraethwyr yn eu wardiau.**

**(b) Gofyn i'r Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol gysylltu â'r ysgolion i'w hysbysu o'r bwriad uchod fel bo modd i'r Penaethiaid a'r Aelodau drefnu iddynt fynychu sesiwn addoli ar y cyd.**

## 7. HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION

(a) Tywysodd y Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol yr Aelodau drwy daflen a gyflwynwyd yn nodi crynodeb o ganfyddiadau ysgolion gan dynnu sylw bod 4 ysgol gynradd, a dim un ysgol uwchradd nac ysgol arbennig wedi eu harolygu gan ESTYN yn ystod tymor yr Haf 2017. Cyfeiriwyd at sylwadau ESTYN o dan baragraff Gofal, cymorth ac arweiniad, gan nodi mai ychydig iawn o fanylder a roddir i addysg grefyddol.

Yng nghyswllt Ysgol Rhosgadfan o safbwynt y dyfarniad o anfoddhaol o dan y pennawd Gofal, cymorth ac arweiniad, nodwyd y cyfeirir at ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gyda datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn dda.

(b) Tywyswyd yr Aelodau drwy hunan arfarniadau Ysgolion Abersoch a Felinwnda gyda'r safonau, y ddarpariaeth addysg yn dda a chyfeiriwyd bod yr Ysgolion wedi adnabod elfennau i dderbyn sylw, megis:

- Datblygu sgiliau ysgrifennu estynedig disgyblion wrth iddynt ddysgu am grefydd arall ar wahân i Gristnogaeth
- Mwy o gyfleoedd i'r disgyblion fagu hyder wrth ofyn ac ateb cwestiynau penodol er mwyn mynegi barn am faterion moesol perthnasol
- Sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd yn cael ei roi i ymwelwyr ddod i gyfnodau addoli ar y cyd

**PENDERFYNWYD: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a'r hunan arfarniadau a gofyn, yn unol â'r drefn, i'r Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol, anfon llythyr at yr ysgolion uchod yn nodi gwerthfawrogiad CYSAG o'r ymdrechion a wneir gan yr ysgolion i gyrraedd y graddau.**

**(b) Gofyn i'r Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol lythyru hefo'r ysgolion hynny sydd wedi derbyn arolygiad ym mis Hydref i ofyn iddynt gyflwyno eu hunan arfarniad i gyfarfod nesaf CYSAG ym mis Chwefror.**

**8. DIWEDDARIAD GAN YMGYNGHORYDD CEFNOGI GWELLIANT GWE**

(a) Ffurflen Hunan Arfarniad Drafft

Cyfeiriodd yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE at dudalennau 32-33 yn y Rhaglen a oedd yn cynnwys ffurflen hunan arfarniad a anfonir at ysgolion i'w cyflwyno ar gyfer monitro gan CYSAG

Atgoffwyd yr Aelodau bod Fframwaith Arolygu ESTYN wedi newid ers Medi 2017, mewn cydweithrediad â chydweithwyr a swyddogion CYSAG, roedd yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE wedi addasu'r ffurflen ac fe gyflwynwyd y drafft i'r Aelodau, er canfod eu barn o'r cynnwys.

Eglurwyd bod maes arolygu 1 yn y Fframwaith newydd yn cyfeirio at safonau addysg grefyddol gan ofyn pa mor dda mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd mewn addysg grefyddol, sef bod yn ymwybodol o safonau'r disgyblion.

Cyfeiria'r ail faes at Les ac agweddau at ddysgu - efallai bod CYSAG yn awyddus i wybod sut mae disgyblion yn teimlo tuag at addysg grefyddol yn yr Ysgol, a ydynt yn mwynhau'r pwnc ac yn cyfrannu at eu datblygiad at ddinasyddion llwyddiannus

Ym maes arolygu 3 cyfeirir at brofiadau mae plant yn cael. Rhoddir cyfle i gyfeirio at y gwersi - a yw'r disgyblion yn cael croestoriad o grefyddau, ydynt yn mynd ar ymweliadau a fyddai yn helpu plant i wella addysg grefyddol.

O safbwynt Gofal, cymorth ac arweiniad mewn addysg grefyddol – h.y. beth yw effaith yr addysg grefyddol, gofynnir i ysgolion nodi i ba raddau mae addysg grefyddol yn dod a chymuned at ei gilydd, a yw'r disgyblion yn cael profiadau eang yn eu cymunedau.

Yng nghyd-destun Arweinyddiaeth a rheolaeth, gofynnir i ba raddau mae athrawon yn craffu ar addysg grefyddol, a ydynt yn adnabod y cryfderau a gwendidau i sicrhau bod addysg grefyddol yn gyson dda.

Gofynnwyd am farn y Pwyllgor o gynnwys y ffurflen ddrafft uchod ac mewn ymateb amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) Y byddai'r ffurflen yn cael ei throsglwyddo i Benaethiaid pwnc i'w chwblhau ac nid o reidrwydd yn cael ei chwblhau gan Bennaeth ysgol
(b) Bod y gofyn yn ormod eleni wrth i Benaethiaid orfod ddygymod â'r Fframwaith Arolygu newydd. Gwyntyllwyd y syniad i gadw'r ffurflen yn ôl am flwyddyn gan fod Penaethiaid yn gorfod ymdopi hefo trefn newydd beth bynnag.
(c) A yw'r cwestiynau braidd yn gyffredinol, h.y. pa dystiolaeth fydd yn cael ei ddefnyddio i ymateb i'r cwestiynau ac a yw hunan ddatblygiad y plentyn yn cael ei golli?
(d) Bod pob pwnc arall yn cael eu bandio o fewn chwarteli yn CA3 heblaw addysg grefyddol. Fodd bynnag cyflwyna ysgolion ddata i GwE ond nid oedd yn hawdd tracio ar lefel ehangach.
(e) Nad oedd addysg grefyddol yn cael sylw pob blwyddyn mewn ysgolion cynradd fel hunan arfarniad pynciol

Nododd un aelod y byddai'n barod i gwblhau'r ffurflen ar ran Ysgol Eifionydd.

**Penderfynwyd: Y byddir yn rhoi dewis i ysgolion pa ffurflen i'w chwblhau ond efallai dewis ambell Ysgol i'w dreialu yn y flwyddyn newydd.**

(b) **Cwrs TGAU Astudiaeth Grefyddol Newydd**

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r diffyg mewn gwerslyfrau i'r cyrsiau TGAU a Safon Uwch sef bod y llyfrau yn hwyr yn cael eu cyhoeddi, bron i flwyddyn ar ôl cychwyn y cwrs sydd yn ychwanegu at bwysau gwaith athrawon.

Cyfeiriwyd bod llythyr wedi ei anfon ar 23 Mehefin 2017 at Gydbwyllgor Addysg yn mynegi pryder a chais i sicrhau bod ysgolion yn derbyn adnoddau cyfrwng Cymraeg mewn da bryd, ond ni dderbyniwyd ymateb.

Mynegwyd pryder pellach bod athrawon yn mynd i gael ei beirniadu yn y canlyniadau.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol:**

**(a) Anfon llythyr i'r Gweinidog dros Addysg ynghyd â'r Comisiynydd Iaith Gymraeg i ddatgan pryder o'r sefyllfa uchod.**
**(b) Gyfeirio'r mater er sylw pellach gan Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi'r Cyngor.**

(c) Addysg Grefyddol a'r cwricwlwm newydd

Adroddodd yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE ar gyfer paratoi at y cwricwlwm newydd fod grŵp o ysgolion arloesi sydd yn gyfrifol am ddatblygu'r cwricwlwm Dyniaethau wedi ymchwilio i gwricwla gwledydd eraill ac wedi derbyn arweiniad gan arbenigwyr allanol. Nodwyd ymhellach bod y Llywodraeth wedi comisiynu arbenigwyr i baratoi papurau ar "yr hyn sy'n bwysig" mewn addysg grefyddol (Barbara Wintersgill), hanes (Dr Elin Jones), Daearyddiaeth (Elinor Rawling) a busnes (Prifysgol Caerdydd). Comisiynwyd Cymdeithas CYSAGau Cymru i baratoi adroddiad hefyd a nododd Miss Bethan James ei bod wedi cyfrannu at y gwaith hwn. Nodwyd bod Barbara Wintersgill wedi adnabod 6 syniad megis:

1. Parhad, Newid ac Amrywiaeth / Continuity, Change and Diversity
2. Geiriau a Thu Hwnt / Words and Beyond
3. Bywyd Da / A good Life
4. Gwneud Synnwyr o Brofiadau Bywyd / Making Sense of Life's Experiences
5. Dylanwad, Cymuned, Diwylliant a Phwêr / Influence, Community, Culture and Power
6. Y Darlun Mawr / The Big Picture

Roedd Gweithgor Cymdeithas CYSAGau Cymru wedi adnabod 3 peth pwysig:

1. Ymwybyddiaeth o brofiadau bywyd a'r cwestiynau a godir ohonynt
2. Credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion
3. Archwilio ac ymatebion personol

ac fe fyddir yn cyflwyno adroddiad i'r Grŵp Dyniaethau ar 13 Tachwedd.

(ch) E-gylchgrawn Addysg Grefyddol

Nodwyd bod rhifyn 4 yn ymwneud â'r amgylchedd ar wefan HWB.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch i'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant GwE am y diweddariad uchod.**

**9. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU**

**(a) Cofnodion cyfarfod diwethaf**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod diwethaf o'r Gymdeithas a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2017.

**(b)** Nodi dyddiadau o gyfarfodydd nesaf Cymdeithas CYSAGau Cymru:

- Dydd Gwener, 10 Tachwedd 2017 - Canolfan Ddinesig, Pen-y-bont Ar Ogwr
- Dydd Gwener, 9 Mawrth 2017 – Canolfan Ddinesig, Abertawe

**(c)** Cyflwynwyd diweddariad ar y broses o ddiwygio'r cwricwlwm gan Manon Jones, Llywodraeth Cymru.

**Penderfynwyd:** **(a)** **Derbyn a nodi cynnwys y cofnodion.**

**(b)** **Nodi'r dyddiadau uchod.**

**(c)** **Nodi'r diweddariad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 4.10 pm

**CADEIRYDD**